---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Y Rheoliadau hyn yw'r rheoliadau cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("y Ddeddf"). Maent yn dwyn i rym adran 48 o'r Ddeddf o ran Cymru.

Mae adran 48 o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i adrannau 47 (rhoi a derbyn hysbysiad cychwynnol), 51A(2) (amrywio gwaith y mae'r hysbysiad cychwynnol yn ymwneud ag ef) a 56 (cofnodi a darparu gwybodaeth) o Ddeddf Adeiladu 1984. Effaith y diwygiadau hyn yw dileu gofynion yswiriant ar gyfer arolygwyr cymeradwy.